Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

# Gwasanaeth Mabwysiadu Bae'r Gorllewin

Tachwedd 2025

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.
© Hawlfraint y Goron 2025 WG53440 ISBN Digidol 978-1-80633-636-4

## 1. Cyflwyniad

1.1 Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) arolygiad o Wasanaeth Mabwysiadu Bae'r Gorllewin[1] rhwng 1 Medi a 5 Medi 2025.

1.2 Mae AGC yn adolygu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, gan gynnwys swyddogaethau mewn perthynas â mabwysiadu, ar ran Gweinidogion Cymru yn unol ag Adran 149B o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

1.3 Mae Cyfarwyddydau Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (Trefniadau Mabwysiadu ar y Cyd) (Cymru) 2019 yn gosod dyletswyddau statudol ar awdurdodau lleol i gydweithio â'i gilydd. Prif ddiben y cyfarwyddydau hyn yw sicrhau bod trefniadau ar y cyd effeithiol ar waith rhwng awdurdodau lleol i sicrhau gwasanaethau mabwysiadu cyson ac effeithiol ledled Cymru. Mae Gwasanaethau Mabwysiadu Rhanbarthol ledled Cymru yn rhan o strwythur tair haen i ddarparu gwasanaethau mabwysiadu ledled Cymru. Mae'r strwythur tair haen yn creu'r Gwasanaethau Mabwysiadu Cenedlaethol. Er bod yr arolygiad hwn yn canolbwyntio ar Wasanaeth Mabwysiadu Bae'r Gorllewin, mae'n amlwg ei fod yn cael budd o'r cymorth a ddarperir gan strwythurau eraill yn y gwasanaeth cenedlaethol.

1.4 Mae Cydweithredfa Fabwysiadu Ranbarthol Gwasanaeth Mabwysiadu Bae'r Gorllewin yn cynnwys awdurdodau lleol Abertawe, Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr. Awdurdod lleol Abertawe yw'r awdurdod lleol dan sylw ar gyfer y rhanbarth hwn.

1.5 Roedd yr arolygiad yn canolbwyntio ar sut mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo llesiant a diogelwch plant drwy gynnig sefydlogrwydd gyda theuluoedd sy'n mabwysiadu, a all ddiwallu eu hanghenion yn ddiogel a gwella'r tebygolrwydd y byddant yn cyflawni'r canlyniadau gorau posibl. Gwnaethom werthuso'r trefniadau arweinyddiaeth a llywodraethu sy'n cefnogi'r broses o ddarparu'r gwasanaeth, a pha mor effeithiol yw'r trefniadau hynny wrth sicrhau canlyniadau o ansawdd i blant.

1.6 Gwnaethom ystyried y cwestiynau allweddol canlynol o dan benawdau perthnasol.

### Llesiant

- A gaiff anghenion llesiant y plant eu diogelu'n briodol wrth gael sefydlogrwydd?

[1] Mae Cydweithredfa Fabwysiadu Ranbarthol Bae'r Gorllewin yn cyfeirio ati'i hun fel Gwasanaeth Mabwysiadu Bae'r Gorllewin. Felly, defnyddir y term hwn drwy'r adroddiad hwn.

- A yw'r gwasanaeth a ddarperir yn hygyrch, yn ddiogel ac yn ymateb i anghenion y bobl?

**Gofal a Chymorth**

- A yw plant, y teulu biolegol a'r teulu sy'n mabwysiadu yn cyflawni canlyniadau da drwy'r cymorth a ddarperir, sy'n hybu eu llesiant cyffredinol?

**Arweinyddiaeth a Llywodraethu**

- A yw'r trefniadau arwain a llywodraethu yn sicrhau bod pobl yn cael gwasanaethau o ansawdd uchel?

1.7 Rhestr Terminoleg a Diffinio Meintiau Gweler Atodiad 2 a 3.

## 2. Crynodeb o Ganfyddiadau'r Arolygiad

2.1 Cydweithredfa ranbarthol yw Gwasanaeth Mabwysiadu Bae'r Gorllewin sy'n cwmpasu awdurdodau lleol Abertawe, Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr. Mae gan y gwasanaeth strwythur rheoli canolog, cyllideb gyfun, a systemau TG a rennir sy'n ei alluogi i wneud penderfyniadau cydgysylltiedig a darparu gwasanaethau mabwysiadu cyson. Mae uwch-arweinwyr o bob awdurdod yn cymryd rhan yng nghyfarfodydd rheolaidd y bwrdd rheoli er mwyn goruchwylio'r cyfeiriad strategol, y defnydd o adnoddau, a datblygiad y gwasanaeth, yn seiliedig ar gytundeb partneriaeth ffurfiol.

2.2 Mae Gwasanaeth Mabwysiadu Bae'r Gorllewin yn rhoi polisïau a gweithdrefnau'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ar waith yn gyson. Caiff y Datganiad o Ddiben ei adolygu'n flynyddol ac mae'n hygyrch. Mae angen gwneud mân ddiweddariadau i rai dogfennau llywodraethu er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r gofynion presennol.

2.3 Mae'r asesiadau o ddarpar fabwysiadwyr yn gynhwysfawr, a chaiff arferion diogelu sy'n ystyriol o drawma eu hymgorffori ar bob cam. Mae'r mabwysiadwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi ac y rhoddir y wybodaeth ddiweddaraf iddynt, ac mae'r prosesau sicrhau ansawdd yn helpu i gynnal safonau.

2.4 Mae'r broses dod o hyd i deuluoedd a'r broses baru yn blaenoriaethu anghenion y plant. Mae gwaith cynllunio cydweithredol ac amserlenni trawma-meithrin yn cefnogi canlyniadau cadarnhaol. Caiff trefniadau pontio (y broses wedi'i chynllunio ar gyfer symud plentyn oddi wrth ei ofalwyr presennol at y teulu sy'n ei fabwysiadu) eu rheoli gyda mewnbwn gan ofalwyr maeth a mabwysiadwyr.

2.5 Mae gwasanaethau cymorth mabwysiadu ar gyfer plant, mabwysiadwyr, a theuluoedd biolegol yn cynnwys ymyriadau therapiwtig, grwpiau cyfoedion, a chymorth ymarferol. Mae'r tîm cymorth mabwysiadu yn rhoi cyngor ac yn sgwrsio ag unigolion yn rheolaidd. Dywedodd teuluoedd eu bod wedi cael profiadau cadarnhaol, ac nad oes unrhyw restrau aros er mwyn cael cymorth.

2.6 Mae'r arweinyddiaeth yn amlwg, ac mae rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir. Mae'r gweithlu yn cael budd o sesiynau goruchwylio a datblygiad proffesiynol. Mae'r rheolwyr yn monitro perfformiad a'r gwasanaeth a ddarperir, ac mae gwaith parhaus yn mynd rhagddo i atgyfnerthu'r prosesau sicrhau ansawdd a'r gwersi a ddysgir o archwiliadau.

2.7 Caiff y broses o recriwtio darpar fabwysiadwyr ei chefnogi gan drefniadau marchnata wedi'u targedu a chyllidebau hyblyg, ac mae ymgyrchoedd yn cael eu cynnal yn Gymraeg ac yn Saesneg. Caiff ymgyrchoedd recriwtio eu llywio gan fewnbwn y Grŵp Marchnata i Fabwysiadwyr.

2.8 Mae Gwasanaeth Mabwysiadu Bae'r Gorllewin yn rheoli ac yn storio cofnodion yn ddiogel, ac mae trefniadau clir ar gyfer cael gafael ar y cofnodion hyn a'u cadw. Mae'r systemau sydd wedi'u hymgorffori yn hwyluso'r broses o gael gafael ar ffeiliau yn effeithlon, ac mae'r safle yn addas ac yn diwallu anghenion y gwasanaeth.

2.9 Mae'r cryfderau yn cynnwys cymorth therapiwtig, prosesau asesu a pharu cadarn, a gweithlu medrus. Mae'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn cynnwys diweddaru'r dogfennau llywodraethu a gwella'r cyfathrebu ynglŷn â gwasanaethau cymorth mabwysiadu a hawliau.

## 3. Canfyddiadau

### Llesiant

3.1 Mae Gwasanaeth Mabwysiadu Bae'r Gorllewin yn mabwysiadu polisïau a chanllawiau'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ac yn eu rhoi ar waith ym mhob rhan o'i waith. Mae'r ymarferwyr yn adolygu'r fframweithiau hyn yn rheolaidd i sicrhau bod yr ymarfer yn gyson. Mae'r gwasanaeth yn adolygu ei Ddatganiad o Ddiben yn flynyddol, gan osod nodau, amcanion, a safonau Gwasanaeth Mabwysiadu Bae'r Gorllewin. Mae'r Datganiad o Ddiben yn sicrhau tryloywder, atebolrwydd, a gwelliant parhaus.

3.2 Mae'r gwasanaeth yn dangos ymrwymiad clir i'r Gymraeg a hygyrchedd. Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn unol â fframwaith [2]'Mwy na Geiriau' ac yn sicrhau y gall y bobl gael gwasanaethau yn eu dewis iaith. Mae'r ymarferwyr yn darparu gwybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg fel mater o drefn, ac maent yn cynnig cymorth cyfieithu lle bo angen. Cadarnhaodd y mabwysiadwyr eu bod yn cael gwybodaeth yn eu dewis iaith, a bod deunyddiau marchnata yn cael eu creu yn ddwyieithog.

3.3 Caiff eiriolaeth ei hymgorffori yn yr ymarfer. Mae'r ymarferwyr cymryd camau gweithredol i gefnogi'r plant, y bobl ifanc a'r rhieni biolegol i fynegi eu safbwyntiau, ac yn sicrhau y caiff y rhain eu hystyried wrth gynllunio a gwneud penderfyniadau. Caiff y bobl eu cynnwys yn y broses o asesu a gwella'r gwasanaeth drwy grwpiau ieuenctid, fforymau cymorth a sianeli adborth. Mae'r ymarferwyr yn casglu adborth ac yn ei ddefnyddio i lywio'r gwasanaeth a ddarperir, gan ddangos ymrwymiad clir i gyfranogiad ystyrlon a chynhwysol.

3.4 Mae diogelu yn flaenoriaeth a rennir yn y gwasanaeth. Mae'r ymarferwyr yn deall eu cyfrifoldebau, yn nodi risgiau ac yn ymateb iddynt yn hyderus, ac yn uwchgyfeirio digwyddiadau o bwys yn briodol. Maent yn defnyddio polisïau a gweithdrefnau hygyrch, ac yn mynd i'r afael â diogelu fel mater o drefn mewn sesiynau goruchwylio, wrth gynllunio ac yn ystod trafodaethau panel. Cynhelir cyfarfodydd tarfu pan fo angen a chaiff gwersi a ddysgwyd eu rhannu â'r gwasanaeth cyfan. Mae'r ymarferwyr yn cynnal ffocws sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar lesiant a diogelwch, gan roi ymarfer sy'n ystyriol o drawma ar waith i adlewyrchu profiadau bywyd y bobl.

3.5 Mae'r broses o asesu darpar fabwysiadwyr yn gadarn ac yn gynhwysfawr, a chaiff ei chwblhau gan weithlu profiadol. Mae Gwasanaeth Mabwysiadu Bae'r Gorllewin yn dilyn canllawiau'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ac yn defnyddio templedi strwythuredig i sicrhau cysondeb ledled y rhanbarth. Mae'r ymarferwyr yn cwblhau asesiadau mewn modd amserol a thrylwyr, gan ddarparu dadansoddiad clir o gryfderau, gwendidau a rhwydweithiau cymorth. Mae dulliau sicrhau ansawdd ar waith, ac mae'r rheolwyr yn rhoi adborth er mwyn gwella'r ddogfennaeth. Dywedodd y mabwysiadwyr eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda a'u bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf yn ystod y broses. Dywedodd un mabwysiadwr, "*our experience of WBAS has been nothing but positive, professional, supportive and wonderful. We were kept up to date throughout the process.*"

3.6 Mae'r hyfforddiant ar gyfer darpar fabwysiadwyr yn adlewyrchu ymarfer mabwysiadu modern. Mae'r sesiynau yn cwmpasu pynciau allweddol gan

[2] Fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yw Mwy na geiriau. Mae dolen i'r ddogfen ar gael yma: [Mwy na geiriau (llyw.cymru)](https://llyw.cymru).

gynnwys trawma, mabwysiadu brodyr a chwiorydd, trefniadau cyswllt a gwirioneddau rhianta plant ag anghenion cymhleth. Mae amrywiaeth o weithwyr proffesiynol yn darparu hyfforddiant, gan gynnwys seicolegwyr, cynghorwyr cyfreithiol a gweithwyr cymorth rhieni biolegol. Roedd y gweithdai a welsom wedi cael eu trefnu'n dda ac yn hwyluso trafodaethau agored. Mae'r mabwysiadwyr yn gwerthfawrogi'r cyfle i fyfyrio ar eu harferion rhianta ac yn deall effaith profiadau cynnar mewn bywyd. Er bod y rhan fwyaf o'r adborth yn gadarnhaol, awgrymodd nifer bach o'r mabwysiadwyr y gallai cynnwys yr hyfforddiant fod yn fwy ymarferol.

3.7 Mae Gwasanaeth Mabwysiadu Bae'r Gorllewin yn gweithio mewn partneriaeth â rhieni biolegol drwy ddulliau sensitif a hyblyg. Mae'r ymarferwyr yn dangos dyfalbarhad wrth ymgysylltu â theuluoedd biolegol ac yn sicrhau y caiff eu safbwyntiau eu clywed. Mae'r rhieni biolegol yn cael eu cefnogi i gyfrannu at ddeunyddiau taith bywyd ac yn cael cynnig cyfarfodydd wedi'u hwyluso â mabwysiadwyr lle y bo'n briodol. Dywedodd y rhieni biolegol eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi ac yn cael y wybodaeth ddiweddaraf, gydag un ohonynt yn nodi, *“the service helps me write to my son… they understand my disabilities and difficulties and help me the best they can.”* Mae grŵp cymorth penodol i rieni biolegol ar waith, ac mae'r ymarferwyr yn rhoi cymorth ymarferol iddynt fel trafnidiaeth ac yn eu cyfeirio at wasanaethau eraill. **Mae hyn yn arfer da.**

3.8 Mae Gwasanaeth Mabwysiadu Bae'r Gorllewin yn ymgorffori fframwaith Sefydlogrwydd Cynnar Cymru[3] gyda chymorth gan y gwasanaeth maethu. Ar adeg yr arolygiad, roedd dau blentyn wedi cael eu lleoli o dan fframwaith Sefydlogrwydd Cynnar Cymru, ac roedd darpar fabwysiadwyr eraill wrthi'n cwblhau'r cynllun. Mae'r ymarferwyr yn cyflwyno fframwaith Sefydlogrwydd Cynnar Cymru yn gynnar yn yr hyfforddiant i fabwysiadwyr, ac mae deunyddiau gwybodaeth wedi cael eu datblygu ar y cyd â'r Grŵp Marchnata i Fabwysiadwyr. Mae aelodau o'r panel wedi cael hyfforddiant ar y fframwaith. Nid yw'r fframwaith wedi cael ei ymgorffori'n llawn eto, ac mae angen i'r ymarferwyr feithrin dealltwriaeth o'r fframwaith a'i roi ar waith yn fwy cyson. **Dylai Gwasanaeth Mabwysiadu Bae'r Gorllewin barhau i ymgorffori fframwaith Sefydlogrwydd Cynnar Cymru a sicrhau bod dull cydlynol a systematig ar waith i gofnodi penderfyniadau a rhesymeg mewn cynlluniau gofal, Adroddiadau ar Asesiadau o'r Plentyn i'w Fabwysiadu, ac Adroddiadau Darpar Fabwysiadwyr, yn unol â Chanllaw Arfer Da y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol.**

[3] Welsh Early Permanency Frameword.pdf

## Llesiant

3.9 Mae'r tîm dod o hyd i deuluoedd yn rhagweithiol ac yn wybodus. Mae'r ymarferwyr yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr o'r awdurdodau lleol i sicrhau bod anghenion y plant wrth wraidd y broses gwneud penderfyniadau. Mae'r trefniadau dirprwyedig o ran y gyllideb yn sicrhau y gellir gwneud penderfyniadau am leoliadau allanol mewn modd amserol, sy'n helpu i osgoi unrhyw oedi diangen. Mae'r ymarferwyr yn rhoi sylw i hunaniaeth y plant a'u cefndir diwylliannol ac yn casglu gwybodaeth gan deuluoedd biolegol er mwyn llywio proffiliau.

3.10 Mae'r rhan fwyaf o'r penderfyniadau paru yn drylwyr, yn ystyriol o drawma ac yn canolbwyntio ar y plentyn. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio amserlenni trawma-meithrin ar gyfer pob plentyn. Ar gyfer plant dros dair oed, grwpiau o frodyr a chwiorydd, neu'r rhai ag anghenion cymhleth, caiff sesiwn 'Diwrnod Deall y Plentyn' ei blaenoriaethu er mwyn archwilio hanes y plentyn a'i brofiadau. Lle na chaiff y sesiwn hon ei chynnal, mae'r ymarferwyr yn gweithio gyda darpar fabwysiadwyr a'u gweithwyr cymdeithasol i egluro cefndir y plentyn. Dywedodd yr ymarferwyr a'r mabwysiadwyr fod y broses baru yn mynd rhagddi mewn modd cydweithredol a'i bod yn cael ei hesbonio'n dda, a bod dadansoddi gofalus a chyngor proffesiynol yn rhan o ymarfer. Mae'r rheolwyr yn cadeirio cyfarfodydd paru er mwyn darparu arweinyddiaeth, ac mae adolygiadau rheolaidd gan y Rheolwr Mabwysiadu Rhanbarthol yn hyrwyddo cysondeb. Caiff y rhan fwyaf o'r plant eu lleoli heb unrhyw oedi diangen, ond nododd ychydig o deuluoedd sy'n mabwysiadu oedi neu fylchau yn y broses gyfathrebu, yn arbennig yn ystod newidiadau neu absenoldebau ymhlith ymarferwyr.

3.11 Mae'r ymarferwyr yn rheoli'r trefniadau pontio drwy weithio'n agos gyda'r gofalwyr maeth, mabwysiadwyr, a gweithwyr proffesiynol eraill i sicrhau bod pob cam yn cael ei drefnu'n dda ac ar gyflymder sy'n addas ar gyfer anghenion unigol y plentyn. Mae'r mabwysiadwyr yn cael gwybodaeth allweddol am gefndir a bywyd y plentyn o ddydd i ddydd, sy'n eu galluogi i ddarparu gofal yn seiliedig ar wybodaeth. Mae adolygiadau rheolaidd yn olrhain cynnydd ac yn mynd i'r afael ag anghenion sy'n codi. Dywedodd gofalwyr maeth a mabwysiadwyr eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys a'u cefnogi.

3.12 Caiff cynlluniau cymorth mabwysiadu eu datblygu ar y cyd â mabwysiadwyr a gweithwyr proffesiynol perthnasol. Cânt eu teilwra i amgylchiadau unigol ac maent yn cynnwys mewnbwn gan arbenigwyr lle y bo'n briodol. Mae'r ymarferwyr yn adolygu'r cynlluniau cymorth ac yn eu diweddaru'n rheolaidd.

3.13 Mae gwaith taith bywyd yn rhan o'r broses gynllunio ar gyfer plant ac mae'n cyd-fynd â Chanllaw Arfer Da Gwaith Taith Bywyd y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol. Mae'r ymarferwyr yn cyd-gynhyrchu deunyddiau taith bywyd ar y cyd â'r gofalwyr maeth, y teuluoedd biolegol, a'r mabwysiadwyr. Mae gweithwyr taith bywyd arbenigol yn helpu'r ymarferwyr i wella ansawdd a chysondeb y gwaith hwn. Mae'r holl waith taith bywyd yn mynd drwy broses sicrhau ansawdd gadarn, ac mae'r ymarferwyr, y rheolwyr, a'r panel mabwysiadu yn adolygu'r deunyddiau. Mae Tîm Therapi a Seicoleg Gwasanaeth Mabwysiadu Bae'r Gorllewin hefyd yn cwblhau gwaith taith bywyd fel rhan o'i adnoddau amlddisgyblaethol, gan gefnogi dealltwriaeth y plant o'u cefndiroedd a'u hunaniaeth. **Mae hyn yn arfer da.**

3.14 Mae'r gwasanaethau cymorth mabwysiadu yn gryfder allweddol. Mae'r tîm yn darparu cymorth ymatebol, hygyrch ac wedi'i deilwra er mwyn diwallu anghenion y plant, y mabwysiadwyr, a'r teuluoedd biolegol. Mae Gwasanaeth Mabwysiadu Bae'r Gorllewin wedi datblygu hwb rhithwir a hwb taith bywyd/cyswllt dynodedig, sy'n galluogi teuluoedd i gael cyngor a chymorth yn brydlon, a chânt eu cyfeirio at ymyriadau a gweithdai priodol. Mae amrywiaeth eang o grwpiau cymorth ar gael ar gyfer mabwysiadwyr, rhieni biolegol, a phobl ifanc. Mae sgyrsiau rheolaidd 12 mis a thair blynedd ar ôl mabwysiadu yn helpu i nodi anghenion sy'n codi yn gynnar. Mae'r bobl ifanc a'u teuluoedd yn canmol y grŵp ieuenctid a grŵp chwarae synhwyraidd Leaplets, gan eu bod yn cefnogi eu llesiant ac yn sicrhau y caiff eu lleisiau eu clywed. **Mae hyn yn arfer da.** Fodd bynnag, nid yw pob mabwysiadwr yn ymwybodol o'r amrywiaeth lawn o wasanaethau cymorth mabwysiadu sydd ar gael, gan gynnwys eu hawl i gael cymorth gydol oes. **Dylai Gwasanaeth Mabwysiadu Bae'r Gorllewin atgyfnerthu'r broses gyfathrebu a'r deunyddiau ysgrifenedig er mwyn sicrhau bod pob mabwysiadwr yn deall pa gymorth sydd ar gael a sut i gael gafael arno unrhyw bryd ar ôl mabwysiadu.**

3.15 Mae'r Gwasanaeth Seicolegol a Therapiwtig yn defnyddio model cadarn ac amlddisgyblaethol sy'n rhagweithiol, yn hygyrch ac yn ymatebol. **Mae hyn yn arfer da.** Mae nodi anghenion yn gynnar a dull hyblyg o ddarparu cymorth yn sicrhau ymyriadau amserol, heb unrhyw restrau aros. Mae teuluoedd yn cael budd o amrywiaeth eang o ymyriadau therapiwtig. Caiff y gwasanaeth ei ariannu gan awdurdodau lleol Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe, sy'n golygu bod tîm sylweddol a phrofiadol ar gael i ddarparu cymorth. Er y gall pob teulu gymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp, ymgyngoriadau, a chael cymorth craidd, mae Gwasanaeth Mabwysiadu Bae'r Gorllewin yn darparu mewnbwn therapiwtig unigol yn uniongyrchol i deuluoedd yn Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Ar gyfer teuluoedd ym Mhen-y-bont ar Ogwr, caiff hyn ei reoli'n allanol, sy'n golygu bod mynediad at y gweithgareddau a'r ffordd y cânt cynnal yn amrywio. Mae Gwasanaeth Mabwysiadu Bae'r Gorllewin yn

gweithio'n agos gydag awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr i leihau unrhyw effeithiau o ganlyniad i'r gwahaniaethau hyn ac i sicrhau bod pob teulu yn cael cymorth.

3.16 Mae'r ymarferwyr yn canolbwyntio ar arwyddocâd emosiynol cyswllt i blant sydd wedi cael eu mabwysiadu, rhieni biolegol, brodyr a chwiorydd, ac unigolion arwyddocaol eraill. Caiff hyfforddiant ei ddarparu i fabwysiadwyr, ac mae'r sgyrsiau â'r rhieni biolegol yn mynd i'r afael â chymhlethdodau cyswllt. Mae dulliau creadigol a hyblyg yn rhan safonol o waith cynllunio gofal ac yn adlewyrchu'r disgwyliadau presennol wrth fabwysiadu. Mae'r ymarferwyr yn ailystyried ac yn adolygu cytundebau cyswllt er mwyn sicrhau eu bod er lles pennaf y plentyn o hyd. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar brofiadau a diogelwch emosiynol y plentyn. **Mae hyn yn arfer da.**

3.17 Mae Gwasanaeth Mabwysiadu Bae'r Gorllewin yn darparu gwasanaethau cyfryngol amserol a hygyrch sy'n helpu oedolion a gafodd eu mabwysiadu a pherthnasau biolegol i ddeall eu hanes a chael gafael ar wybodaeth. Mae'r ymarferwyr yn rhoi esboniadau clir, cymorth emosiynol, a chymorth ymarferol mewn modd sensitif, gan gynnwys gwasanaeth cwnsela, ac yn helpu unigolion i gael gafael ar gofnodion mabwysiadu ac i wneud cyswllt. Mae'r ymarferwyr yn rheoli hanesion cymhleth mewn ffordd fedrus a sensitif, ac mae'r rheolwyr yn goruchwylio ansawdd ac ymatebolrwydd y gwasanaeth. Nid oes rhestr aros ar gyfer cael gafael ar gofnodion na chymorth cyfryngol. **Mae hyn yn arfer da.**

3.18 Mae trefniadau'r panel yn gadarn. Dengys yr aelodau brosesau craffu proffesiynol cryf ac maent yn cael sesiynau sefydlu, arfarniadau blynyddol, a hyfforddiant parhaus. Mae ganddynt arbenigeddau amrywiol, gan gynnwys profiad bywyd ym maes mabwysiadu a maethu, yn ogystal â chefndiroedd ym maes iechyd ac addysg. Mae cymorth busnes effeithiol a chynghorwyr proffesiynol, gan gynnwys mewnbwn gan weithwyr meddygol a chyfreithiol, yn atgyfnerthu gwaith y panel. Fodd bynnag, nid yw Cynghorydd Meddygol Pen-y-bont ar Ogwr yn bresennol yng nghyfarfodydd y panel yn gyson. **Dylai Gwasanaeth Mabwysiadu Bae'r Gorllewin barhau i gwblhau'r trefniadau i sicrhau bod cyngor meddygol teg ar gael i bob plentyn ledled y rhanbarth.**

3.19 Mae cyfarfodydd wythnosol y panel yn helpu i wneud penderfyniadau amserol. Mae aelodau'r panel yn defnyddio rhestr wirio lles er mwyn sicrhau bod yr argymhellion yn canolbwyntio ar y plentyn ac yn seiliedig ar dystiolaeth. Mae aelodau'r panel yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifri, gan gydnabod y gall eu hargymhellion effeithio ar fywydau unigolion. Maent hefyd yn craffu mewn ffordd adeiladol i sicrhau bod asesiadau a phenderfyniadau paru yn cael eu goruchwylio'n gadarn. Mae cynghorydd y panel yn mynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion o ran ansawdd y deunyddiau cyn cyfarfodydd.

3.20 Anogir darpar fabwysiadwyr i fynegi eu barn, ac mae'r gweithwyr cymdeithasol mabwysiadu yn cynnig cymorth drwy gyfarfodydd wyneb yn wyneb a chyfarfodydd rhithwir. Mae aelodau'r panel wedi nodi bod angen amrywio'r aelodaeth er mwyn adlewyrchu'r gymuned a gaiff ei gwasanaethu'n well. Mae ymgyrch recriwtio ar waith ar hyn o bryd, a **dylai Gwasanaeth Mabwysiadu Bae'r Gorllewin barhau i flaenoriaethu amrywiaeth ymhlith aelodau'r panel er mwyn sicrhau bod y panel yn cynrychioli'r boblogaeth y mae'n ei gwasanaethu.**

3.21 Mae cofnodion o gyfarfodydd y panel o safon dda ar y cyfan, ac mae'r cyfarfodydd busnes rheolaidd yn mynd i'r afael â materion gweithredol. **Dylai Gwasanaeth Mabwysiadu Bae'r Gorllewin sicrhau bod penderfyniadau Penderfynwr yr Asiantaeth yn cael eu cofnodi'n glir yn y cofnodion, gan gynnwys dadansoddiad a rhesymeg, er mwyn atgyfnerthu tryloywder ac atebolrwydd yn unol ag arfer gorau.**

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

3.22 Mae'r arweinwyr yn dangos gweledigaeth ac uchelgais glir ar gyfer y gwasanaeth. Dywedodd yr ymarferwyr fod y rolau a'r cyfrifoldebau'n glir, a chadarnhaodd 100% o'r ymarferwyr hyn yn arolwg AGC. Mae'r Bwrdd Rheoli yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn goruchwylio'r trefniadau cydweithredol, perfformiad, y gyllideb, a phrosesau diogelu. Mae cofnodion gweithredu yn olrhain hynt penderfyniadau, a dywedodd yr ymarferwyr fod yr arweinwyr yn weladwy, yn hawdd mynd atynt, ac yn gefnogol.

3.23 Mae'r arweinwyr yn dangos ymrwymiad cryf i weithio mewn partneriaeth, ac mae ganddynt gydberthnasau wedi'u diffinio'n glir ag adrannau addysg, byrddau iechyd, ac asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol. Disgrifiodd yr ymarferwyr a'r rheolwyr y dull cydweithio effeithiol sydd ar waith gyda phartneriaid a nodwyd bod dealltwriaeth gyffredin o'r ffordd y mae systemau cyfan yn cyfrannu at lesiant a sefydlogrwydd i'r plant ac yn eu hyrwyddo.

3.24 Mae trefniadau'r gyllideb gyfun ymhlith y cryfderau, ac yn sicrhau y gellir gwneud penderfyniadau amserol a rhanbarthol ynglŷn ag adnoddau a chymorth. Mae'r Bwrdd Rheoli yn cael adroddiadau manwl ac yn cydweithio'n agos â thimau ariannol yr awdurdodau lleol i sicrhau tryloywder ac atebolrwydd. Mae'r Bwrdd Rheoli wrthi'n adolygu'r fformiwla cyfraniad er mwyn sicrhau tegwch ar draws yr awdurdodau lleol.

3.25 Caiff cynlluniau strategol eu llywio drwy ddadansoddi anghenion yn rheolaidd, ac mae'r Bwrdd Rheoli yn adolygu data perfformiad a thueddiadau atgyfeirio er mwyn llywio blaenoriaethau gweithredol. Mae'r cynllun busnes yn cyd-fynd ag amcanion mabwysiadu cenedlaethol a chaiff ei ddiweddaru bob chwarter. Fodd bynnag, nid yw'r cytundeb partneriaeth rhanbarthol wedi cael ei adolygu na'i ddiweddaru'n sylweddol ers iddo gael ei ddatblygu ac nid yw'n adlewyrchu'r ddeddfwriaeth gyfredol yn llawn. Mae'r arweinwyr wedi cydnabod hyn ac wedi mynd ati i ddechrau diweddaru'r cytundeb, ac mae cynlluniau ar y gweill i'w adolygu a'i ddiwygio'n ffurfiol yn dilyn gwaith cyllidebol a strwythurol sy'n mynd rhagddo yn y gwasanaeth ar hyn o bryd. **Dylai Gwasanaeth Mabwysiadu Bae'r Gorllewin sicrhau bod y cytundeb partneriaeth yn cael ei ddiweddaru fel mater o flaenoriaeth er mwyn cefnogi prosesau llywodraethu a chydymffurfio effeithiol.**

3.26 Mae trefniadau sicrhau ansawdd ar waith, ac mae'r Adolygiadau rheolaidd o Ansawdd y Gwasanaeth a'r adroddiadau ar berfformiad yn rhoi trosolwg clir o weithgarwch y gwasanaeth a'i gyflawniadau. Mae gan y Rheolwyr a'r Bwrdd Rheoli brosesau goruchwylio effeithiol, sy'n cefnogi diwylliant cryf o ddysgu a gwelliant parhaus. Er bod amrywiaeth o adnoddau a phrosesau archwilio ar waith, nid yw'r holl archwiliadau wedi'u hymgorffori'n llawn nac yn cael eu defnyddio'n gyson i lywio datblygiadau i'r gwasanaeth. **Rhaid i Wasanaeth Mabwysiadu Bae'r Gorllewin atgyfnerthu'r dull systematig o ddadansoddi adborth, digwyddiadau, ac archwiliadau o fewn Adolygiadau o Ansawdd y Gwasanaeth er mwyn sicrhau y caiff gwersi i'w dysgu a meysydd i'w gwella eu nodi a'u dogfennu'n glir.**

3.27 Mae Gwasanaeth Mabwysiadu Bae'r Gorllewin yn hyrwyddo diwylliant cryf a chefnogol lle mae'r ymarferwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan eu cydweithwyr a'r rheolwyr. Mae'r arweinwyr yn sicrhau eu bod yn eu gorchwylio'n rheolaidd, yn rhoi cymorth i gymheiriaid ac yn canolbwyntio ar lesiant. Dywedwyd bod ethos y tîm yn gadarnhaol, yn gynhwysol ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau. Mae'r ymarferwyr yn gwerthfawrogi presenoldeb gweledol a phrosesau cyfathrebu clir y Rheolwr Mabwysiadu Rhanbarthol a'r rheolwyr tîm, sy'n goruchwylio'r ymarfer yn gadarn. **Mae hyn yn arfer da.**

3.28 Mae Gwasanaeth Mabwysiadu Bae'r Gorllewin yn dangos ymrwymiad cryf i ddarparu gwasanaethau mabwysiadu drwy weithlu cymwys, profiadol a chymwysedig addas. Mae'r ymarferwyr yn cael budd o sesiynau goruchwylio rheolaidd ac arfarniadau blynyddol, a rhoddir pwyslais cryf ar ddatblygiad proffesiynol parhaus a mynediad at hyfforddiant gorfodol a hyfforddiant arbenigol. Mae'r gweithlu yn sefydlog ac yn cynnwys digon o staff i ateb galw presennol y gwasanaeth, a dywedodd yr ymarferwyr eu bod yn gallu ymdopi â'r llwythi achosion a bod cymorth ychwanegol ar gael pan fo angen.

3.29 Caiff yr ymarferwyr eu cyflogi gan awdurdodau lleol gwahanol o fewn y rhanbarth, a all arwain at wahaniaethau o ran arferion cyflogaeth a mynediad at rai adnoddau. Er gwaethaf hyn, disgrifiodd yr ymarferwyr ymdeimlad cryf o ddiben a rennir a chydweithrediad.

3.30 Mae gan Wasanaeth Mabwysiadu Bae'r Gorllewin ddull marchnata rhagweithiol â digon o adnoddau a gaiff ei gefnogi gan swyddog marchnata dynodedig a chyllideb a gaiff ei phennu ymlaen llaw. Cynhelir ymgyrchoedd yn Gymraeg ac yn Saesneg fel mater o drefn, ac mae'r wefan yn cynnwys gwiriwr mabwysiadu rhyngweithiol i gefnogi ymgysylltiad cynnar. Mae'r Grŵp Marchnata i Fabwysiadwyr yn cyfrannu at y broses o lywio cyfathrebiadau drwy sicrhau bod deunyddiau yn adlewyrchu profiadau bywyd ac yn hyrwyddo negeseuon cynhwysol. **Mae hyn yn arfer da.** Mae'r gwasanaeth yn cynnal cyswllt rheolaidd ag ymgeiswyr posibl ac yn addasu ei weithgarwch marchnata er mwyn ennyn cymaint o ddiddordeb â phosibl. Er gwaethaf y cryfderau hyn, mae Gwasanaeth Mabwysiadu Bae'r Gorllewin yn parhau i wynebu'r her genedlaethol o nifer cyfyngedig o fabwysiadwyr. **Dylai Gwasanaeth Mabwysiadu Bae'r Gorllewin barhau i atgyfnerthu ei strategaeth farchnata a sicrhau ei bod yn parhau i fod yn ddynamig ac yn gynhwysol ac yn cyd-fynd â blaenoriaethau cenedlaethol er mwyn helpu i recriwtio digon o fabwysiadwyr.**

3.31 Mae'r ymarferwyr yn storio cofnodion yn ddiogel, ac mae trefniadau clir ar gyfer perchnogaeth, cael gafael ar y cofnodion a'u cadw. Caiff gwybodaeth ei chadw ar system TG ganolog, a gellir cael gafael ar ffeiliau yn hawdd. Mae'r safle yn addas i storio gwybodaeth yn ddiogel, ac mae systemau ar waith i gynnal y gofrestr fabwysiadu. Mae'r ymarferwyr yn dangos dealltwriaeth glir o ofynion diogelu data. Er bod polisïau cadw'r awdurdodau lleol yn cael eu defnyddio ac yn cyd-fynd yn fras â'r disgwyliadau deddfwriaethol, nid oes polisi rheoli cofnodion ar waith yn y gwasanaeth sy'n nodi diben, fformat, cyfrinachedd, trefniadau storio diogel, a threfniadau mynediad ar gyfer cofnodion mabwysiadu fel y nodir yn y Cof Ymarfer ar gyfer Gwasanaethau Mabwysiadu. **Rhaid i Wasanaeth Mabwysiadu Bae'r Gorllewin sicrhau bod ei drefniadau rheoli cofnodion yn bodloni'r holl ofynion statudol a'r gofynion o ran ymarfer ar gyfer gwasanaethau mabwysiadu yn llawn.**

## 4. Meysydd Blaenoriaeth i'w Gwella

4.1 **Rhaid** i Wasanaeth Mabwysiadu Bae'r Gorllewin sicrhau bod yr adolygiadau o ansawdd y gwasanaeth yn cydymffurfio'n llawn â Rheoliad 39(1) o Reoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2019, a bod trefniadau effeithiol ar waith i fonitro, adolygu, a gwella ansawdd y gwasanaeth, gan

gynnwys gwerthuso gweithgarwch ymgysylltu, digwyddiadau, cwynion ac archwiliadau er mwyn llywio datblygiadau i'r gwasanaeth yn y dyfodol.

4.2 **Rhaid** i Wasanaeth Mabwysiadu Bae'r Gorllewin sicrhau bod ei drefniadau rheoli cofnodion yn cydymffurfio'n llawn â gofynion Rheoliad 28(1) ac Atodlen 3 o Reoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2019.

## 5. Argymhellion

5.1 **Dylai** Gwasanaeth Mabwysiadu Bae'r Gorllewin barhau i atgyfnerthu ei ddefnydd o fframwaith Sefydlogrwydd Cynnar Cymru er mwyn sicrhau gwaith cynllunio sefydlogrwydd cyson ac amserol.

5.2 **Dylai** Gwasanaeth Mabwysiadu Bae'r Gorllewin atgyfnerthu ei drefniadau cyfathrebu a'i ddeunyddiau ysgrifenedig er mwyn sicrhau y rhoddir y wybodaeth ddiweddaraf i'r holl fabwysiadwyr am yr amrywiaeth o wasanaethau cymorth mabwysiadu a hawliau sydd ar gael iddynt ar bob cam.

5.3 **Dylai** Gwasanaeth Mabwysiadu Bae'r Gorllewin barhau i gwblhau'r trefniadau i sicrhau bod cyngor meddygol teg ar gael i bob plentyn ledled y rhanbarth.

5.4 **Dylai** Gwasanaeth Mabwysiadu Bae'r Gorllewin barhau i flaenoriaethu amrywiaeth ymhlith aelodau'r panel i sicrhau bod y panel yn cynrychioli'r boblogaeth y mae'n ei gwasanaethu.

5.5 **Dylai** Gwasanaeth Mabwysiadu Bae'r Gorllewin sicrhau bod penderfyniadau Penderfynwr yr Asiantaeth yn cael eu cofnodi'n glir yn y cofnodion, gan gynnwys dadansoddiad a rhesymeg, er mwyn atgyfnerthu tryloywder ac atebolrwydd yn unol â'r arfer gorau.

5.6 **Dylai** Gwasanaeth Mabwysiadu Bae'r Gorllewin barhau i atgyfnerthu ei strategaeth farchnata a sicrhau ei bod yn parhau i fod yn ddynamig ac yn gynhwysol ac yn cyd-fynd â blaenoriaethau cenedlaethol er mwyn helpu i recriwtio digon o fabwysiadwyr.

5.7 **Dylai** Gwasanaeth Mabwysiadu Bae'r Gorllewin sicrhau bod y cytundeb partneriaeth yn cael ei ddiweddaru fel mater o flaenoriaeth er mwyn cefnogi prosesau llywodraethu a chydymffurfio effeithiol.

## 6. Y Camau Nesaf

Mae AGC yn ei gwneud y ofynnol i Wasanaeth Mabwysiadu Bae'r Gorllewin lunio cynllun gwella a'i rannu ag AGC erbyn 30 Rhagfyr 2025.

Bydd AGC yn adolygu'r cynllun gwella ac yn ceisio cael sicrwydd pellach o gynnydd. Gwneir hyn drwy gyfarfod â Phennaeth Gwasanaethau Plant yr awdurdod lleol dan sylw ynghyd â'r Rheolwr Mabwysiadu Rhanbarthol o fewn 18-24 mis i gyhoeddi'r adroddiad.


Bydd AGC yn ystyried gweithgarwch pellach er mwyn cael sicrwydd o welliant parhaus a bydd yn ystyried gweithgarwch ymgysylltu pwrpasol i gefnogi ei gwaith monitro parhaus.

## 7. Cydnabyddiaethau

Hoffai AGC ddiolch i'r staff, y partneriaid a'r bobl a roddodd o'u hamser i gyfrannu at yr arolygiad hwn.

Yn gywir,





**Lou Bushell-Bauers**
Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol
**Arolygiaeth Gofal Cymru**

**Julie Heal**
Pennaeth Arolygu Gwasanaethau Oedolion a Phlant
**Arolygiaeth Gofal Cymru**

## Atodiad 1

### Methodoleg

### Hunanwerthuso

- Gofynnwyd i Wasanaeth Mabwysiadu Bae'r Gorllewin gwblhau Hunanwerthusiad er mwyn myfyrio ar ei berfformiad ei hun mewn meysydd penodol o'r gwasanaeth.

### Gwaith maes

Gwnaethom ystyried profiadau 20 o bobl drwy edrych ar eu cofnodion gofal cymdeithasol a'u holrhain. Gwnaethom edrych ar 17 o gofnodion ac olrhain tri.

- Gall olrhain cofnod unigolyn gynnwys sgwrsio â'r person sy'n cael gwasanaethau, ei deulu neu ei ofalwyr, ei weithiwr cymdeithasol mabwysiadu, ei weithiwr cymdeithasol gofal plant, y rheolwr, a lle y bo'n briodol, weithwyr proffesiynol cysylltiedig eraill.
- Gwnaethom ymgysylltu â 25 o bobl sy'n cael gwasanaethau a/neu eu gofalwyr drwy gyfweliadau a/neu grwpiau ffocws (Roedd hyn yn cynnwys rhieni sy'n mabwysiadu, gofalwyr maeth a rhieni biolegol).
- Gwnaethom ymgysylltu â 52 o ymarferwyr a rheolwyr drwy gyfweliadau a/neu grwpiau ffocws (Roedd hyn yn cynnwys gweithwyr cymdeithasol gofal plant, gweithwyr cymdeithasol mabwysiadu, rheolwyr tîm, Swyddogion Adolygu Annibynnol, rheolwyr maethu, y Rheolwr Mabwysiadu Rhanbarthol, a'r Pennaeth Gwasanaethau Plant ar gyfer awdurdod lleol dan sylw Gwasanaeth Mabwysiadu Bae'r Gorllewin).
- Gwnaethom ymgysylltu â 15 o gynrychiolwyr o asiantaethau partner drwy grwpiau ffocws.
- Gwnaethom siarad ag un Cadeirydd Panel a naw aelod panel.
- Gwnaethom siarad ag wyth plentyn gyda'u rhieni mabwysiedig yn bresennol.
- Gwnaethom edrych ar sampl o ffeiliau goruchwylio staff.
- Gwnaethom arsylwi ar banel mabwysiadu, Grŵp Marchnata i Fabwysiadwyr, sesiwn hyfforddiant i fabwysiadwyr, grŵp cymorth i famau biolegol a grŵp chwarae gyda mabwysiadwyr a'u plant.
- Gwnaethom edrych ar ddogfennau ategol a anfonwyd i AGC at ddiben yr arolygiad.
- Gwnaethom ddosbarthu arolygon i ymarferwyr a rheolwyr Gwasanaeth Mabwysiadu Bae'r Gorllewin, sefydliadau partner a phobl. Cawsom ymatebion gan 49 o ymarferwyr/rheolwyr o Wasanaeth Mabwysiadu Bae'r Gorllewin, 84 gan bobl a naw gan randdeiliaid perthnasol. Cawsom chwe ymateb gan deuluoedd biolegol.

Mae ein Hysbysiad Preifatrwydd ar gael yn https://www.arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-gwybodaeth-bersonol.

**Y Gymraeg**

Mae AGC yn ymrwymedig i ddarparu cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn ystod ei gweithgarwch ag awdurdodau lleol.

Nid oedd angen y cynnig rhagweithiol y tro hwn.

## Atodiad 2

**Rhestr Terminoleg**

| **Term** | **Beth rydym yn ei olygu yn ein hadroddiadau a'n llythyrau** |
|---|---|
| **Rhaid** | Ystyrir bod angen gwella er mwyn i'r Gydweithredfa Fabwysiadu Ranbarthol gyflawni dyletswydd a nodir mewn deddfwriaeth, rheoliad neu god ymarfer. Nid yw'r Gydweithredfa Fabwysiadu Ranbarthol yn cyflawni ei dyletswydd(au) statudol ar hyn o bryd a rhaid iddi weithredu. |
| **Dylai** | Bydd gwelliant yn cynnig gwasanaeth gwell a/neu ganlyniadau gwell i'r bobl. Nid yw'n gyfystyr â methiant i gyflawni dyletswydd gyfreithiol ar hyn o bryd; ond heb gymryd camau addas, mae risg na fydd y Gydweithredfa Fabwysiadu Ranbarthol yn cyflawni ei dyletswydd(au) cyfreithiol yn y dyfodol. |
| **Arferion da** | Meysydd o gryfder a nodwyd yn y Gydweithredfa Fabwysiadu Ranbarthol. Mae hyn yn golygu ymarfer yr ystyrir ei fod yn arloesol a/neu sy'n arwain yn gyson at ganlyniadau cadarnhaol i bobl sy'n cael gwasanaethau statudol. |
| **Llesiant** | Un o egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 sy'n anelu at sicrhau llesiant i bobl ym mhob rhan o'u bywydau. Mae llesiant yn golygu mwy na bod yn iach. Mae'n ymwneud â bod yn ddiogel ac yn hapus, cael dewis a chael y cymorth priodol, bod yn rhan o gymuned gadarn, bod â ffrindiau a chydberthnasau buddiol, a chael diddordebau, gwaith neu gyfleoedd dysgu. Mae'n ymwneud â helpu pobl i sicrhau eu llesiant eu hunain a mesur llwyddiant gofal a chymorth. |

# Atodiad 3

**Tabl Diffinio Meintiau**

| Terminoleg | Diffiniad |
|---|---|
| Bron pob un | Gydag ychydig iawn o eithriadau |
| Y rhan fwyaf | 90% neu fwy |
| Llawer | 70% neu fwy |
| Mwyafrif | Dros 60% |
| Hanner | 50% |
| Tua hanner | Yn agos i 50% |
| Lleiafrif | Llai na 40% |
| Nifer bach | Llai nag 20% |
| Nifer bach iawn | Llai na 10% |